


**Y Ffair Aeaf**
Mae Côr yr ysgol wedi derbyn gwahoddiad i berfformio yn y Ffair Aeaf eleni ar ddydd Llun y 25ain o Dachwedd.
Cynhelir y Ffair ar faes y sioe yn Llanelwedd. Bydd manylion parthed amseroedd gadael ac ati yn cael eu rhannu gyda'r côr yn fuan.

***The Winter Fair***
*The school choir has received an invitation to perform at this year's Winter Fair on Monday 25th November.*
*The Fair is held on the showground in Llanelwedd. Details regarding departure times etc will be shared with the choir soon.*

---

**Pantomeim!** (Blwyddyn 1 – 6)
Bydd disgyblion blynyddoedd 1 – 6 yn ymweld â Theatr y Werin ar brynhawn dydd Mercher y 27ain o Dachwedd ar gyfer pantomeim Culhwch ac Olwen. Rydym yn ddiolchgar iawn i Nia Evans, Cadeirydd y Llywodraethwyr am roi cais am grant 'Ewch i weld' a llwyddo i hawlio £1,000 tuag at leihau'r costau. Golyga hyn mai'r gost i bob plentyn fydd £6.00 gan gynnwys cludiant. Bydd hyn yn ymddangos ar eich ParentPay yn fuan. Gwerthfawrogir eich cyfraniadau.

***Pantomime!*** *(Years 1 – 6)*
*Pupils in years 1 - 6 will visit Theatr y Werin on the afternoon of Wednesday 27th November for the pantomime Culhwch and Olwen. We are very grateful to Nia Evans, Chair of the Governors for applying for a 'Go and see' grant and successfully claiming £1,000 towards reducing the costs. This means that the cost for each child will be £6.00, including transport. This will appear on your ParentPay shortly. Your contributions are appreciated.*

---

**C.Rh.A**
**P.T.A**





## Cyngerdd Nadolig y Maer

Mae Côr yr ysgol hefyd wedi derbyn gwahoddiad i berfformio yng Nghyngerdd Maer y Dref ar nos Iau yr 28ain o Dachwedd yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth. Bydd y noson yn cychwyn am 7yh. Does dim angen tocynnau – byddant yn derbyn cyfraniadau ar y noson.

## *The Mayor's Christmas Concert*

*The school Choir has also received an invitation to perform at the Town Mayor's Concert on Thursday night the 28th of November at Canolfan y Morlan, Aberystwyth. The evening will start at 7pm. Tickets are not required - donations will be accepted on the evening.*



## Noddi'r Cyngerdd Nadolig

Os oes gennych ddiddordeb mewn noddi rhaglen y Gyngerdd Nadolig a gynhelir yn y Neuadd Fawr ar nos Iau, Rhagfyr 12fed yna cysylltwch â mi cyn dydd Llun, Rhagfyr 2ail. Gallwch gael hysbyseb fechan chwarter tudalen am £50 neu hysbyseb hanner tudalen am £100. Mae hysbyseb tudalen gyfan yn £150. Mae modd i noddwyr y noson gael hyd at 6 tocyn am ddim a seddau cadw ar gyfer y noson. Sieciau yn daladwy i 'Cymdeithas Rhieni Ysgol Gymraeg Aberystwyth' Mi fyddwn yn defnyddio'r arian nawdd i dalu am y gost o ddefnyddio'r Neuadd Fawr.

## *Christmas Concert Sponsorship*

*If you are interested in sponsoring the Christmas Concert programme which will be held in the Great Hall on Thursday, December 12th then please contact me before Monday, December 2nd. You can get a small quarter page ad for £50 or a half page ad for £100. A full page advert is £150. Sponsors of the event can get up to 6 free tickets and reserved seats for the concert. Cheques payable to 'Cymdeithas Rhieni Ysgol Gymraeg Aberystwyth' We will use the sponsorship money to pay for the cost of using the Great Hall.*

## Y Gymraeg

**Sgorio Rhyngwladol: Twrci v Cymru**

CG 5.00 ar nos Sadwrn, 16 Tachwedd

Gwylio S4C, S4C Clic, BBC iPlayer, a YouTube Sgorio

Gwylio ar S4C Clic | Gwylio ar BBC iPlayer | YouTube Sgorio

**Clwb Rygbi Rhyngwladol: Cymru v Awstralia**

CG 4.10 ar ddydd Sul, 17 Tachwedd

Gwylio ar S4C, S4C Clic, a BBC iPlayer

Gwylio ar S4C Clic | Gwylio ar BBC iPlayer

A fyddwch chi'n cefnogi Cymru y penwythnos hon? Cofiwch wylio yn y Gymraeg ar S4C!

Chwaraeon | S4C

## *The Welsh language*

**Sgorio Rhyngwladol: Turkey v Cymru**

KO 5.00 on Saturday evening, 16 November

Watch on S4C, S4C Clic, BBC iPlayer, and Sgorio's YouTube

Watch on S4C Clic | Watch on BBC iPlayer | Sgorio's YouTube

**Clwb Rygbi Rhyngwladol: Wales v Australia**

KO 4.10 on Sunday, 17 November

Watch on S4C, S4C Clic, and BBC iPlayer

Watch on S4C Clic | Watch on BBC iPlayer

*Will you be supporting Wales this weekend? Remember to watch in Welsh on S4C!*

Sport | S4C



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn.
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr ac yn byw'n barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half Term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter and lives permanently on the school's website.*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher***
**15/11/2024**
[www.ysgolgymraeg.cymru](http://www.ysgolgymraeg.cymru)

